# Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd
# Cylch Gorchwyl Drafft

## Cenhadaeth

1. Cenhadaeth Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ('y Bwrdd') yw galluogi gwell cyfathrebu rhwng corff llywodraethu Caerdydd a'i ecosystem gerddoriaeth. Pwrpas y Bwrdd yw hyrwyddo sin cerddoriaeth Caerdydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, diogelu a hyrwyddo cerddoriaeth ar lawr gwlad a phob lefel, gan ddarparu llwyfan ar gyfer mwy o gyfathrebu a chydweithio ar draws y sector, wrth gefnogi'r dyhead i Gaerdydd gael ei dathlu fel Dinas Gerdd.

## Amcanion

2. Bydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r amcanion canlynol:

- Hybu datblygiad a hyrwyddo sîn gerddoriaeth Caerdydd.
- Lobïo am fuddsoddiad yn ecosystem cerddoriaeth Caerdydd.
- Hybu tegwch, mynediad ac amrywiaeth yn y sîn gerddoriaeth yng Nghaerdydd a hyrwyddo mentrau amrywiaeth.
- Cefnogi ymagwedd bartneriaeth tuag at ddatblygu sîn gerddoriaeth Caerdydd
- Archwilio ffyrdd o gynyddu gwydnwch a chynaliadwyedd sector cerddoriaeth a lleoliadau ar lawr gwlad
- Cefnogi datblygwyr a chymunedau i warchod gofodau cerddoriaeth bresennol a datblygu lleoliadau cerddoriaeth a gweithfannau newydd

## Strategaeth Cerddoriaeth Caerdydd

3. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Cerddoriaeth Caerdydd, a fydd yn cynnwys:

- Strategaeth a rhaglen weithgareddau canlynol sy'n cyflawni amcanion y Bwrdd, yn cynnwys argymhellion adroddiad Dinas Gerdd Sound Diplomacy.
- Nodi adnoddau ar gyfer cyflawni'r strategaeth
- Hybu'r sector
- Lobïo am fuddsoddiad yn y sector

## Aelodaeth y Bwrdd

4. Bydd y bwrdd yn cynnwys hyd at 18 aelod. Bydd Cyngor Caerdydd yn hysbysebu aelodaeth y Bwrdd yn agored, a bydd aelodau'n cael eu dewis drwy broses recriwtio agored gan Gyngor Caerdydd yn cynnwys unigolion sydd â phrofiad yn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

| | |
|---|---|
| Llywodraeth leol | Sefydliadau cerddoriaeth dan arweiniad anabledd |
| Ysgolion | Datblygwyr eiddo sydd o blaid diwylliant |
| Diwydiant cerddoriaeth a recordiwyd | Arbenigwyr Economi’r Nos |
| Artistiaid, DJs, cynhyrchwyr | Cyllidwyr cyhoeddus |
| Cyhoeddwyr cerddoriaeth | Undebau |
| Rheolwyr cerddoriaeth | Hybiau addysg gerddoriaeth |
| Asiantau cerddoriaeth | Newyddiadurwyr a chyfryngau cerddoriaeth |
| Asiantau archebu | Sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid |
| Cyngherddau a gwyliau mawr | Mudiadau cerddoriaeth cymunedol |
| Lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad | Addysg bellach ac uwch |
| Lleoliadau cerddoriaeth mwy | Ymchwil a dadansoddi |
| Stiwdios a mannau ymarfer | Twristiaeth |
| Genres cerddoriaeth amrywiol Caerdydd | Cysylltiadau cyhoeddus cerddoriaeth |
| Canu a pherfformio ar y stryd | |

5. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn cynrychioli amrywiaeth cymdeithasol Caerdydd.

6. Bydd y Bwrdd yn gallu cydethol aelodau gyda chaniatâd.

7. Bydd rolau sefydlog ar gael i Gyngor Caerdydd (Datblygu Economaidd, Cynllunio a Thrwyddedu), Heddlu De Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a FOR Cardiff (Ardal Gwella Busnes).

**Cadeirydd**

8. Bydd Arweinydd Cyngor Caerdydd yn cadeirio’r Bwrdd er mwyn ei arwain. Os nad yw’r Cadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod, bydd Is-gadeirydd yn cael ei benodi gan Aelodau’r Bwrdd i gadeirio’r cyfarfod.

**Gofynion aelodaeth**

9. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal oddeutu bob 2 fis. Mae disgwyl i aelodau wneud bob ymdrech i fynychu bob cyfarfod. Bydd presenoldeb yn cael ei gofnodi’n ffurfiol drwy’r cofnodion.

10. Bydd y Bwrdd yn pennu ei raglen ei hun, fydd yn cael ei dylunio i gyflawni amcanion y Bwrdd, yn amodol ar gydymffurfio â’r Cylch Gorchwyl hwn a chytundeb Rheolwr Gweithredol Buddsoddi a Thwristiaeth Cyngor Caerdydd ymlaen llaw.

11. Yn amodol ar eu hargaeledd, gall y Cadeirydd a Chyngor Caerdydd wahodd Aelodau i ymgymryd â’r gweithgareddau canlynol ar ran y Bwrdd:
    - rhoi areithiau cyhoeddus
    - cymryd rhan mewn trafodaethau bwrdd a phanel
    - ysgrifennu neu gyfrannu at erthyglau yn y wasg
    - rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau
    - darparu dyfyniadau ar gyfer gweithgaredd cyfryngau
    - Ymchwil

12. Os nad yw'r Aelodau'n gallu mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ni chaiff y cynrychiolwyr eu derbyn heb ganiatâd y Cadeirydd ymlaen llaw.

13. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw ymlyniad gwleidyddol ac ni fydd yn cynnig unrhyw argymhellion nac atebion sy'n ymwneud ag ymlyniad gwleidyddol.

**Gweinyddu a chynnal cyfarfodydd y Bwrdd**

14. Bydd y Bwrdd yn ymgynnull tua bob tri mis. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu leoliad arall y cytunwyd arno. Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal mewn mannau hygyrch, oni bai bod rhybudd ysgrifenedig yn cael ei roi ymlaen llaw.

15. Y Cadeirydd fydd yn gosod yr agenda ar gyfer pob cyfarfod. Anogir Aelodau i awgrymu eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod.

16. Mae'n rhaid i bob aelod weithredu'n broffesiynol a chyfreithlon, bod yn brydlon mewn cyfarfodydd a chyhoeddi pob gwrthdaro buddiannau posibl ymlaen llaw, yn unol ag Egwyddorion Nolan o ran Safonau Bywyd Cyhoeddus, llywodraethu da a chydweithredu, bydd pob aelod yn ymdrechu i fod yn barchus, yn canolbwyntio ar gonsensws, yn dryloyw ac yn atebol.

17. Bydd Cyngor Caerdydd yn darparu’r ysgrifenyddiaeth a gwasanaethau cymorth gweinyddol ar gyfer y Bwrdd neu unigolyn neu sefydliad a benodir gan Gyngor Caerdydd, gan gynnwys trefnu’r cyfarfod, rhannu agendau’r cyfarfodydd, cymryd cofnodion a goruchwylio gweinyddiaeth cyffredinol y bwrdd.

18. Rhaid i’r holl gofnodion/adroddiadau terfynol gael eu cyflwyno i’r ysgrifenyddiaeth 7 diwrnod cyn y cyfarfod.

19. Bydd yr agenda a’r papurau ategol yn cael eu hanfon ymlaen i bob aelod y Bwrdd 3 diwrnod cyn y cyfarfod.

20. Bydd gweinyddwr y cyfarfod yn paratoi cofrestr bresenoldeb ar gyfer bob cyfarfod a sicrhau bod presenoldeb bob unigolyn, ynghyd ag unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn cael eu cofnodi’n gywir ym mhob cyfarfod.

21. Bydd cofnodion yn cael eu cadw o bob cyfarfod y Bwrdd.

22. Gall y Bwrdd gytuno i bennu is-grwpiau i ystyried materion yn fanylach na fyddai fel arall yn gallu cael eu hystyried mewn cyfarfodydd y Bwrdd cyfan. Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn berthnasol i bob is-grŵp.

23. Gan nad yw’r Bwrdd yn gorff sy’n gwneud penderfyniadau, does dim cworwm penodol i’w gyfarfodydd.

**Hyd aelodaeth**

24. Penodir aelodau am dymor o ddwy flynedd. Gall Aelodau gael eu hailbenodi gan y Cadeirydd, ar y cyd â Rheolwr Gweithredol Buddsoddi a Thwristiaeth Cyngor Caerdydd.

25. Gall unrhyw aelod ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cadeirydd.
26. Gall y Cadeirydd ddod â'r aelodaeth i ben os nad yw aelod yn gallu mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd neu os bydd yn torri'r Cylch Gorchwyl hwn.

**Taliadau**

27. Mae aelodaeth y Bwrdd yn wirfoddol. Ni all Aelodau hawlio treuliau ac ni chânt eu talu i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, darparu cyngor a sylwadau, rhwydweithio a darparu cyflwyniadau, cynrychioli'r Bwrdd neu unrhyw weithgaredd arall sy'n ymwneud â gwaith y Bwrdd.

**Cyfyngiad yr awdurdod**

28. Mae'r Bwrdd yn gorff cynghori i Gyngor Caerdydd. Nid corff gweithredol ydyw. Nid oes ganddo'r awdurdod i:

    - Gwario arian ar ran Cyngor Caerdydd
    - Ymrwymo neu ddylanwadu ar gyngor Caerdydd i unrhyw drefniant
    - Ystyried unrhyw fater y tu allan i'w gylch gorchwyl penodol
    - Cyfarwyddo staff Cyngor Caerdydd i gyflawni eu dyletswyddau ac ni fyddant yn ceisio gwneud hynny
    - Neu'n honni neu'n cynrychioli Cyngor Caerdydd mewn unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd neu'r cyfryngau

29. Ni fydd gweithrediadau'r Bwrdd neu unrhyw rai o'i aelodau yn llyffetheirio disgresiwn y Cyngor o ran arfer ei bwerau.

**Cyfathrebu**

30. Bydd y Bwrdd yn cyfathrebu drwy restr e-bost gwahoddiad preifat yn unig. Gall cyfathrebu gynnwys:

    - Diweddariadau cyfnodol yn ymwneud â gweithgareddau'r Bwrdd
    - Dosbarthu cofnodion a mentrau
    - Cysylltiadau ac ymchwil sy'n gysylltiedig â nodau ac uchelgeisiau'r Bwrdd
    - Drafftio dogfennau ar gyfer eu hadolygu a derbyn sylwadau arnynt

**Gofynion cyffredinol**

31. Cyn belled ag y mae'n ymwneud â gweithgareddau'r Bwrdd, y Bwrdd ac aelodau unigol y Bwrdd:

    (i) yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") a'r safonau a roddwyd i Gyngor

Caerdydd (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu'r Gwasanaethau. Mae copi o Safonau'r Gymraeg ar gael ar www.caerdydd.gov.uk/caerdydddwyieithog

(ii) yn cydymffurfio â phob gofyn dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac ni fydd yn datgelu neu'n caniatáu mynediad at unrhyw ddata personol fel y'i diffiniwyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ("Data Personol") a ddarperir neu fydd yn cael ei gaffael yn ystod tymor y Bwrdd.

(iii) ni fydd yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn diffiniad a sgôp unrhyw gyfraith, gweithrediad, gorchymyn, neu reoliad neu arfer da mewn perthynas â gwahaniaethu (boed hynny o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth neu fel arall).

(iv) yn cydnabod bod y Cyngor yn amodol ar ofynion Cod Ymddygiad Gwybodaeth Llywodraethol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a fydd yn cynorthwyo a chydweithio gyda'r Cyngor i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ymrwymiadau datgelu gwybodaeth a

(vi) ddim yn ymddwyn mewn ffordd fydd yn dod ag enw drwg i Gyngor Caerdydd

**Datganiadau**

32. Rhaid i Aelodau'r Bwrdd gyflwyno datganiad o fuddiannau personol, yn unol â pholisïau Cyngor Caerdydd, gan gynnwys datganiad sy'n deall ac yn cydymffurfio ag Egwyddorion Nolan o ran Safonau Bywyd Cyhoeddus.

33. Rhaid i bawb sy'n bresennol mewn cyfarfodydd Bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl; bydd y rhain yn cael eu nodi yn y cofnodion. Bydd rhaid i unrhyw berson gyda buddiant perthnasol neu faterol mewn mater fydd yn cael ei ystyried gael ei wahardd o'r drafodaeth; bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yn y cofnodion.